**Sesiwn 2000-2001 Rhif 52**

# PAPURAU BUSNES

## DYDD IAU, 15 CHWEFROR 2001

## RHAN 1 – ADRAN A

## AGENDA

**Bydd y Cyfarfod yn dechrau am 9.05am**

**Cwestiynau i Jane Hutt, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** (15 munud)
Mae rhestr o'r Cwestiynau Llafar ar y Fewnrwyd (a Gwe'r Siambr)

**Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes** (15 munud)
Mae rhestr o'r Cwestiynau Llafar ar y Fewnrwyd (a Gwe'r Siambr)

**Cwestiynau i Bwyllgor y Ty** (15 munud)
Mae rhestr o'r Cwestiynau Llafar ar y Fewnrwyd (a Gwe'r Siambr)

**Cymeradwyo Rheoliadau Tir Mynydd (Cymru) 2001**

*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Tir Mynydd (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Ionawr 2001.

*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

(a) yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw fater sy'n peri pryder o

dan Reol Sefydlog 11.5 yn y gorchymyn drafft, Rheoliadau Tir Mynydd (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Chwefror 2001;

(b) yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Ionawr 2001 a'r memorandwm cywiriadau yn unol â Rheol Sefydlog 22.13 (i) a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Chwefror 2001.

**Cymeradwyo Rheoliadau Ariannu Ysgolion a Gynhelir (Diwygio) (Cymru) 2001**

*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn gweithredu o dan Reol Sefydlog 22.25:*

Yn cymeradwyo:

- Rheoliadau Ariannu Ysgolion a Gynhelir (Diwygio) (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Ionawr 2001, ac:
- Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n peri pryder yn y gorchymyn drafft, Ariannu Ysgolion a Gynhelir (Diwygio) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Chwefror 2001.

**Cymeradwyo Cynllun Datblygu'r Diwydiant Moch (Cadarnhau) 2001**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn gweithredu yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 23.10 yn cymeradwyo'r gorchymyn drafft, Cynllun Datblygu'r Diwydiant Moch (Cadarnhau) 2001, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Chwefror 2001.

**Dadl ar yr Adroddiad ar Amrywiaeth mewn Penodiadau Cyhoeddus**

*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

Yn cymeradwyo'r egwyddorion cyffredinol a gynhwysir yn adroddiad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal 'Adroddiad i Bwyllgor Cyfle Cyfartal Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Benodiadau Cyhoeddus i Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad', ac sydd i'w weld ar y fewnrwyd yn:

http://cynulliad/wcommittees/Equal%20Opportunities%20Committee/Meetings/2000/07-00(25%20Oct)/EOC-07-00(p.1)_w.htm

Mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl ar y camau a gymerwyd tuag at ei roi ar waith erbyn mis Gorffennaf 2001.

**Dadl Plaid Leiafrifol: Plaid Cymru**

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn mynegi ei bryder ynghylch yr oedi mewn perthynas â delio â hawliadau am iawndal gan gyn-lowyr a'u teuluoedd yng Nghymru yn dilyn dyfarniad yr Uchel Lys ar 23ain Ionawr 1998, ac mae'n galw ar Brif Weinidog Cymru i ddwyn pwysau sylweddol ar lywodraeth y DU i:

- Gyflogi mwy o staff meddygol a gweinyddol i gyflymu'r broses o brosesu'r hawliadau
- Rhoi'r gorau i adhawlio taliadau budd-dal o'r hawliadau a dalwyd, a hynny ar unwaith, ac
- I roi'r gorau i herio elfen colli pensiwn yr hawliadau iawndal.

***Mae'r gwelliannau canlynol wedi eu cyflwyno:***

**1. William Graham (Dwyrain De Cymru), Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);**

Rhodder atalnod llawn ar ôl "Ionawr 1998" a rhodder i mewn

‘Mae’r newidiadau parhaus mewn cyfrifoldeb Gweinidogol am y mater hwn wedi ychwanegu at yr oedi’

cyn "ac mae’n galw ar"

**2. Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Dileer y cyfan ar ôl Llywodraeth y DU ac ychwaneger:

"i wneud y cyfan o fewn ei bwerau cyfreithiol i sicrhau bod y cyllid sydd eisoes wedi’i neilltuo ar gyfer talu iawndal i gyn-lowyr a’r rhai sy’n ddibynnol arnynt yn cael ei ddosbarthu’n ddiymdroi".

**Dadl Fer:** (i bara am 30 munud)
**Janice Gregory (Ogwr); Troseddu:- Nid Argraff yn Unig**

**Disgwylir i'r cyfarfod ddod i ben erbyn 12.35pm**

**************

***Bydd y Cynulliad yn torri o 19 - 23 Chwefror 2001***

************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 27 Chwefror 2001**

**J W Lloyd**

**Clerc y Cynulliad**